Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Cyllido Ysgolion yng Nghymru

## Briffio Ymchwil

Awst 2018




www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.


Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:



**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6293**
E-bost: **Michael.Dauncey@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Cyllido Ysgolion yng Nghymru
## Briffio Ymchwil

Awst 2018

**Awduron:**
Michael Dauncey

**Trosolwg o'r papur:**
Enter paper overview

# Contents

**1. Cyflwyniad ........ 6**

**2. Y broses ar gyfer pennu cyllidebau ysgolion ........ 1**

2.1. Setliad Llywodraeth Leol ........ 2

Asesiadau Gwariant Safonol ........ 2

Grantiau penodol ........ 3

2.2. Cyllidebau addysg awdurdodau lleol ........ 3

2.3. Y Gyllideb Ysgolion Unigol (CYU) ........ 4

**3. Lefelau cyllido ysgolion yn 2018-19 ........ 6**

3.1. Gwariant gros a gyllidebwyd ........ 6

3.2. Gwariant dirprwyedig ........ 10

3.3. Data yn ôl awdurdod lleol ........ 11

**4. Cronfeydd wrth gefn ysgolion ........ 14**

4.1. Nifer yr ysgolion sydd â chronfeydd wrth gefn a diffygion ........ 14

4.2. Pwerau cyfarwyddo neu adennill awdurdodau lleol ........ 15

4.3. Gostyngiadau mewn cronfeydd wrth gefn ers 2016-17 a'r neges gan Ysgrifennydd y Cabinet ........ 15

**5. Y cyd-destun polisi ....................................................................17**

5.1. Amddiffyn cyllidebau ysgolion yn y Pedwerydd Cynulliad.......... 17

5.2. Arian ychwanegol ar gyfer codi safonau ysgolion yn y Pumed Cynulliad – drwy gyllideb addysg ganolog Llywodraeth Cymru..................................................................... 18

5.3. Diogelu cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion yn setliad llywodraeth leol 2018-19............................................................ 20

5.4. Lefelau cyllid o'u cymharu â Lloegr ......................................................21

5.5. Ymchwiliad Pwyllgor y Cynulliad sydd ar ddod...............................22

**6. Atodiad A: Dadansoddiad o wariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion.............................................23**

# 1. Cyflwyniad

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad a'r Pumed Cynulliad (2011 ymlaen), mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio diogelu cyllid ysgolion mewn cylchoedd pennu cyllideb olynol. Yn 2018-19, darparodd arian i gynnal cyllid llywodraeth leol ar gyfer cyllidebau ysgolion ar y lefelau presennol, gan osgoi gostyngiadau posibl.

Yng Nghymru, caiff ysgolion a gynhelir (h.y. ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth yn lle rhai annibynnol/preifat) eu hariannu drwy awdurdodau lleol, sy'n cael y rhan fwyaf o'u harian o gyllideb llywodraeth leol flynyddol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â›i dull o geisio diogelu cyllidebau ysgolion yn y setliad llywodraeth leol, mae Llywodraeth Cymru wedi addo £100 miliwn ychwanegol o gyllideb yr Adran Addysg yn y Pumed Cynulliad ar gyfer codi safonau ysgolion.

Yn 2018-19, mae awdurdodau lleol wedi neilltuo £2.566 biliwn o'u cyllidebau i'w wario ar gyfer ysgolion. Mae'r papur hwn yn esbonio'r ffordd y caiff ysgolion eu hariannu, gan gynnwys y broses ar gyfer dyrannu arian i ysgolion unigol a gwariant ar wasanaethau ysgol a ddarperir yn ganolog gan awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys data Cymru gyfan a data awdurdod lleol ar lefelau cyllid ysgolion.

Mae'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil hefyd yn rhoi data ar lefelau cronfeydd wrth gefn ysgolion, yn ogystal â rhywfaint o gyd-destun polisi i'r graddau y mae cyllidebau ysgolion wedi'u diogelu yng Nghymru.

# 2. Y broses ar gyfer pennu cyllidebau ysgolion

Daw'r mwyafrif helaeth o gyllid ar gyfer darpariaeth cyn-16[1] mewn ysgolion a gynhelir o awdurdodau lleol sydd, yn ei dro, yn cael y rhan fwyaf o'i gyllid o'r setliad llywodraeth leol blynyddol, a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae sawl cam i'r broses o bennu cyllidebau ysgolion.

- Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r swm priodol o **Grant Cynnal Refeniw (GCR)** i bob awdurdod lleol. Ynghyd â›i ddyraniad ardrethi annomestig ailddosbarthedig, mae hyn yn rhan o Gyllid Allanol Cyfun (CAC) awdurdod lleol.[2] Mae pob awdurdod lleol yn defnyddio hyn, ynghyd â›r arian y mae'n ei godi o'r dreth gyngor, i ariannu'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir ganddo, gan gynnwys addysg.
- Yn ail, mae awdurdodau lleol yn pennu **cyllideb addysg ar dair haen**, ac un ohonynt yw'r cyllid a roddir yn uniongyrchol (a ddirprwyir) i ysgolion.
- Yn drydydd, mae'r awdurdod lleol yn pennu'r **gyllideb unigol ar gyfer pob ysgol** a gynhelir ganddo.

Pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am drefnu sut y mae'r ysgol yn gwario'i chyllideb unigol.

Yn ogystal â›r gyllideb a delir i bob ysgol gan yr awdurdod lleol, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio nifer o ffrydiau cyllido o'i chyllideb addysg i gefnogi'r gwaith o weithredu polisïau a blaenoriaethau penodol neu dargedu cyllid ychwanegol. Mae'r rhain yn aml ar ffurf grantiau penodol, megis y Grant Gwella Addysg a'r Grant Datblygu Disgyblion.

1 Darperir cyllid ar gyfer darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion drwy grant penodol gan Lywodraeth Cymru. Gweler **Hysbysiad hwylus ar gyllid addysg ôl-16** (Ebrill 2018) y Gwasanaeth Ymchwil am ragor o wybodaeth.

2 Caiff refeniw ardrethi annomestig ei godi'n lleol, ei gyfuno'n ganolog gan Lywodraeth Cymru, yna ei ailddosbarthu i awdurdodau lleol. Ynghyd â›r GCR, mae'n rhan o Gyllid Alla nol Cyfun (CAC) awdurdod lleol.

## 2.1. Setliad Llywodraeth Leol

Caiff y Grant Cynnal Refeniw (GCR) ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ddarparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Y prif ffynonellau cyllid eraill ar gyfer cyllidebau awdurdodau lleol yw incwm y dreth gyngor ac incwm ardrethi annomestig.

Mae swm yr GCR a ddyrennir i bob awdurdod lleol yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn yn y **Setliad Llywodraeth Leol,** gan ddefnyddio fformiwla y cytunwyd arni'n gyffredin. Mae hyn, ynghyd â refeniw ardrethi annomestig ailddosbarthedig, yn creu'r Cyllid Allanol Cyfun (CAC).

**Nid** yw'r arian hwn **yn cael ei neilltuo**, sy'n golygu, er y darperir yr arian gan Lywodraeth Cymru, nad yw'n cyfarwyddo sut y dylid ei ddefnyddio a bod gan awdurdodau lleol ddisgresiwn ynghylch ei ddyrannu. Yn 2018-19, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfanswm o £4.214 biliwn o arian heb ei neilltuo i awdurdodau lleol drwy'r CAC. Mae hyn **0.2 y cant** (£9 miliwn) yn fwy na 2017-18, ar ôl ei addasu ar gyfer trosglwyddo arian i›r setliad. **Mewn termau real, gostyngiad o 1.3 y cant** yw hyn.[3]

### Asesiadau Gwariant Safonol

Ochr yn ochr â›r dyraniadau ariannol i awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion Asesiad Gwariant Safonol (SSA) i bob awdurdod lleol yn y setliad llywodraeth leol blynyddol. Dyma gyfrifiad tybiannol Llywodraeth Cymru o'r hyn y mae ei angen ar bob awdurdod lleol er mwyn darparu lefel safonol o wasanaethau.

Er nad yw'r CAC wedi'i neilltuo, mae Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r SSA yn ôl gwasanaethau drwy **Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBA)**. Mae'r cyfrifiadau hyn yn cynrychioli **dadansoddiad tybiannol** o'r arian y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ei wario er mwyn darparu lefel safonol o wasanaeth ym mhob sector[4].

3 Ar brisiau 2017-18, gan ddefnyddio **datchwyddwyr CMC Trysorlys EM (Saesneg yn unig)** (Mehefin 2018)

4 Gweler Tablau 4c a 4d yn y **wybodaeth am y Setliad Llywodraeth Leol** a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rhennir yr IBA addysg yn y setliad llywodraeth leol rhwng y ddau sector, sef Gwasanaethau ysgol ac Addysg arall. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud **nad targedau gwariant mo IBA nac SSA**, ac mai mater i bob awdurdod lleol yw pennu ei flaenoriaethau gwariant ei hun o'i ddyraniad cyllid cyffredinol a'r hyn y gall ei godi o'r dreth gyngor.[5]

Cofnodir y manylion am y cyfrifiadau a ddefnyddir ar gyfer y setliad llywodraeth leol yn **Llyfr Gwyrdd** Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir ar ôl y wybodaeth am y setliad.

### Grantiau penodol

Er nad yw'r mwyafrif helaeth o gyllid refeniw llywodraeth leol yn cael ei neilltuo,[6] mae Llywodraeth Cymru yn dal i dalu rhai grantiau penodol i awdurdodau lleol at ddiben penodol. Mae nifer y grantiau hyn wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf wedi galwadau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) am lai o neilltuo cyllid. Roedd hyn yn arbennig o wir yn 2018-19 pan wnaeth Llywodraeth Cymru ailflaenoriaethu nifer o ffrydiau grantiau awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gyfer cyllidebau ysgolion a gofal cymdeithasol yn y setliad heb ei neilltuo (a drafodir ymhellach yn adran 5.3 o'r papur hwn).

## 2.2. Cyllidebau addysg awdurdodau lleol

Ar ôl cael eu dyraniad o'r setliad gan Lywodraeth Cymru, mae awdurdodau lleol yn pennu cyllidebau ar gyfer y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys addysg, yn unol ag **anghenion a blaenoriaethau lleol**.

O dan ddarpariaethau ***Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998,*** mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r fframwaith cyfreithiol y mae awdurdodau lleol yn dyrannu eu gwariant ar addysg i ysgolion yn unol ag ef. Nodir y fframwaith yn ***Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010***, fel y'u diwygiwyd. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddyrannu gwariant i'r **tair cyllideb** a ganlyn, y mae awdurdodau lleol yn cadw ac yn gweinyddu'r ddwy gyntaf ohonynt yn ganolog.

5 Gwefan Llywodraeth Cymru, **Asesiadau o Wariant Safonol** [cyrchwyd Gorffennaf 2018]

6 Rhestrir y grantiau hyn yn Nhabl 9 o'r **wybodaeth am y Setliad Llywodraeth Leol** sydd ar wefan Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys y Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Gwella Addysg.

- Mae **Cyllideb Addysg yr Awdurdod Lleol**[7] ar gyfer swyddogaethau canolog yr awdurdod lleol sy'n ymwneud ag addysg. Mae hyn yn cynnwys gwariant ar gyfer ysgolion, er enghraifft rhywfaint o ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gwella ysgolion, trafnidiaeth ysgolion a rheoli strategol. Mae'r elfennau hyn wedi'u cynnwys fel rhan o'r gwariant ysgolion y cyfeirir ato yn Nhablau 1-3 ym mhennod 3 o'r papur hwn. Fodd bynnag, mae cyllideb addysg yr awdurdod lleol hefyd yn cynnwys mathau eraill o wariant ar addysg, fel addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion, trafnidiaeth colegau, gwasanaethau ieuenctid a rheoli strategol nad yw ar gyfer ysgolion.
- Mae'r **Gyllideb Ysgolion** yn cwmpasu gwariant sydd wedi'i dargedu'n uniongyrchol i gefnogi ysgolion. Mae'n cynnwys gwariant ar wasanaethau y gall yr awdurdod lleol gadw cyllid ar eu cyfer yn ganolog, er enghraifft mathau eraill o ddarpariaeth ADY a darparu prydau ysgol a llaeth.
- Mae swm y gwariant a gedwir yn ganolog gan yr awdurdod lleol yn cael ei dynnu o'r Gyllideb Ysgolion a'r gweddill yw'r **Gyllideb Ysgolion Unigol (CYU)**, h.y. cyllid a ddirprwyir i ysgolion. Mae rhai grantiau hefyd wedi'u dirprwyo i ysgolion megis y Grant Datblygu Disgyblion. Mae'r cyllid hwn, ar ben yr CYU, yn rhan o gyllidebau dirprwyedig ysgolion. Y gyfradd ddirprwyo yw'r enw ar gyfran y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion sy'n cynnwys cyllidebau ysgolion dirprwyedig.

## 2.3. Y Gyllideb Ysgolion Unigol (CYU)

Mae ***Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010*** yn nodi bod yn rhaid i'r CYU gael ei dyrannu ymysg ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf cyfranddaliadau cyllidebol, gan ddefnyddio fformiwla ariannu a bennir yn lleol. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i **70 y cant o'r arian gael ei ddosbarthu ar sail nifer y disgyblion**. Yn eu fformiwla, caiff awdurdodau lleol bwysoli nifer y disgyblion yn ôl unrhyw un o'r ffactorau a ganlyn neu bob un ohonynt:

- oedran, gan gynnwys pwysoliad yn ôl cyfnod allweddol neu grŵp blwyddyn;
- a yw disgybl yn cael addysg feithrin gan ysgol;
- yn achos disgyblion o dan bum mlwydd oed, eu hunion oedran wrth gael eu derbyn i'r ysgol;

7 Y term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth yw cyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion, gan ei fod yn cyfeirio at gyllid na chaiff ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion. Fodd bynnag, cyfeirir ato'n gyffredinol fel cyllideb yr awdurdod lleol ac roedd yn arfer cael ei alw'n gyllideb yr awdurdod addysg lleol. Mae'r term 'awdurdod lleol' wedi cael ei ddefnyddio yn lle awdurdod addysg lleol' ers mis Mai 2010.

- yn achos disgyblion o dan bum mlwydd oed, oriau presenoldeb;
- Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- a yw disgybl mewn ysgol hefyd yn mynd i sefydliad yn y sector Addysg Bellach;
- a yw disgybl yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan awdurdodau lleol y **disgresiwn i ddosbarthu'r 30 y cant o'r cyllidebau sy'n weddill** ar sail amrywiaeth o ffactorau yn y rheoliadau, e.e. maint a chyflwr adeiladau a thir, ardrethi, costau cyfleustodau, costau glanhau a chyflogau ac ati.

Mae ***Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003*** yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gael fforwm ysgolion lleol (a elwir yn **fforwm cyllideb ysgolion** hefyd). Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â›u fforwm ysgolion yn flynyddol ar faterion sy'n ymwneud â›u Cyllideb Ysgolion a newidiadau i'w Cynllun Ariannu Ysgolion (gweler isod).  Gallant hefyd ymgynghori â›u fforymau ar faterion eraill sy'n ymwneud â chyllido ysgolion, er enghraifft goblygiadau ariannol y trefniadau ar gyfer prydau ysgol am ddim, trefniadau ar gyfer yswiriant a threfniadau ar gyfer defnyddio unedau cyfeirio disgyblion ac addysg plant heblaw yn yr ysgol.

Rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu **Cynllun Ariannu Ysgolion** sy'n nodi'r berthynas ariannol rhwng yr awdurdod a'r ysgolion yn ei ardal. Mae'n cynnwys gofynion sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol a materion cysylltiedig a gall nodi pwy sy'n gyfrifol am faterion penodol. Dylai'r cynllun nodi cyfrifoldebau'r pennaeth a'r corff llywodraethu o ran cynllun blynyddol y gyllideb. Rhaid i'r corff llywodraethu gymeradwyo cynllun cyllideb ffurfiol cyntaf pob blwyddyn ariannol. Yn 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ***ganllawiau atodol ar gynlluniau ariannu ysgolion (Saesneg yn unig)***.

# 3. Lefelau cyllido ysgolion yn 2018-19

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau blynyddol ar faint o arian a ddyrennir gan awdurdodau lleol i'w wario ar gyfer ysgolion. Cyhoeddwyd y rhifyn diweddaraf, ***Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion, 2018-19 (Saesneg yn unig)***, ar 5 Gorffennaf 2018.

Mae'r ystadegau hyn ar gael fel cyfanswm ffigurau, yn ogystal â ffigurau fesul disgybl. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn cynnwys manylion am y gyfradd ddirprwyo, sef cyfran y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion y mae awdurdodau lleol yn ei roi'n uniongyrchol i ysgolion eu hunain.

## 3.1. Gwariant gros a gyllidebwyd

Mae Tabl 1 yn dangos faint y mae awdurdodau lleol wedi'i ddyrannu i'w wario ar gyfer ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf.

- Ym mlwyddyn ariannol 2018-19, mae swm gros o **£2.566 biliwn** wedi'i gyllidebu gan awdurdodau lleol i'w wario ar gyfer ysgolion.
- Mae'r lefel yn 2018-19 **0.9 y cant yn uwch na'r lefel yn 2017-18**.
- Gostyngodd gwariant cyllidebol yn 2015-16 cyn codi eto, gan fynd heibio i lefel 2014-15 yn 2017-18 a chynyddu ymhellach yn 2018-19.
- Rhwng 2010-11 a 2018-1919, mae gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion wedi **codi o 4.4 y cant (£108 miliwn)** (o ran arian parod). Mewn termau real, gostyngiad o 7.9 y cant yw hyn. (Ar brisiau 2017-18, gan ddefnyddio **datchwyddwyr CMC Trysorlys EM (Saesneg yn unig)**, Mehefin 2018.)

### Tabl 1: Gwariant gros Cymru gyfan a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion

| | £ Biliwn |
|---|---|
| | **Gwariant gros gyllidebwyd ar gyfer ysgolion** |
| **2018-19** | 2.566 |
| **2017-18** | 2.543 |
| **2016-17** | 2.519 |
| **2015-16** | 2.496 |
| **2014-15** | 2.528 |
| **2013-14** | 2.519 |
| **2012-13** | 2.495 |
| **2011-12** | 2.470 |
| **2010-11** | 2.458 |

**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol: Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion (sawl rhifyn blynyddol)

**Nodiadau:**

1. Mae hyn yn cynnwys pob elfen o wariant awdurdodau lleol sy'n ymwneud â darpariaeth ysgolion, h.y. y gyllideb ysgolion (gan gynnwys yr CYU) ynghyd ag elfennau o gyllideb addysg yr awdurdod lleol sy'n ymwneud ag ysgolion: darpariaeth ADY; gwella ysgolion; mynediad at addysg; trafnidiaeth ysgol; rheoli ysgolion yn strategol; a mathau eraill o wariant. Mae'r ffigurau'n cynnwys y gost o addysgu disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r sir.

2. Mae'r ffigurau ar sail 'gros', h.y. maent yn cynnwys cyllid o bob ffynhonnell.

3. Adolygwyd y data ar gyfer 2010-11, 2011-12 a 2013-14 gan Lywodraeth Cymru yn natganiad ystadegol y flwyddyn ddilynol. Y ffigurau yn y tabl hwn yw'r data diwygiedig diweddaraf.

4. Nid yw ffigur 2015-16 a ffigurau blynyddoedd blaenorol yn gwbl gymaradwy oherwydd y newid o wariant Dechrau'n Deg o Addysg i Wasanaethau Cymdeithasol yn 2015-16. Er enghraifft, y newid canran rhwng 2014-15 a 2015-16 oedd gostyngiad1.3 y cant, ond roedd yn ostyngiad 1.0 y cant pan gaiff swm 2014-15 ei addasu i dynnu gwariant Dechrau'n Deg.

Fel y nodwyd ym mhennod 2, mae tair haen o gyllideb y mae awdurdodau lleol yn dyrannu gwariant addysg iddynt. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar StatsCymru[8], lle rhoddir y dadansoddiad a ganlyn yn 2018-19:

- **Cyllideb Addysg yr Awdurdod Lleol** (elfennau sy'n ymwneud ag ysgolion): £248 miliwn [mae £59 miliwn hefyd wedi'i gyllidebu ar gyfer gwariant nad yw ar gyfer ysgolion fel addysg bellach a hyfforddiant a gwasanaethau ieuenctid.]
- Y **Gyllideb Ysgolion** (namyn yr CYU): £158 miliwn
- **Cyllidebau dirprwyedig ar gyfer ysgolion:** £2.160 biliwn. Mae hyn yn cynnwys £1.941 biliwn **Cyllideb Ysgolion Unigol (CYU)** sy'n cynrychioli cyllid craidd ysgolion, a £219 miliwn o gyllid nad yw'n CYU wedi'i ddirprwyo i ysgolion, sy'n cynnwys y Grant Datblygu Disgyblion ymysg y grantiau amrywiol.

Mae Atodiad A i'r papur briffio hwn yn cynnwys tabl sy'n dangos sut y cyrhaeddwyd y cyfansymiau hyn.

Mae Tabl 2 yn dangos faint y mae awdurdodau lleol wedi'i ddyrannu i'w wario ar gyfer ysgolion fesul disgybl.

- Yn 2018-19, mae **£5,675** wedi'i gyllidebu **fesul disgybl**.
- Mae lefel 2018-19 **0.8 y cant yn uwch na 2017-18**.
- Mae'r swm a ddyrannwyd gan awdurdodau lleol fesul disgybl yn 2018-19 **£266 (4.9 y cant) yn uwch na 2010-11** (o ran arian parod). Mewn termau real, gostyngiad o 7.5 y cant yw hyn. (Ar brisiau 2017-18, gan ddefnyddio **datchwyddwyr CMC Trysorlys EM (Saesneg yn unig)**, Mehefin 2018)

8 Llywodraeth Cymru, StatsCymru, Gwariant refeniw addysg a gyllidebwyd yn ôl awdurdod a gwasanaeth a Chyllidebau Ysgol Dirprwyedig yn ôl sector [cyrchwyd Awst 2018]

### Tabl 2: Gwariant gros Cymru gyfan a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion

| | £ |
|---|---|
| | **Gwariant gros gyllidebwyd ar gyfer ysgolion fesul disgybl** |
| **2018-19** | 5,675 |
| **2017-18** | 5,628 |
| **2016-17** | 5,570 |
| **2015-16** | 5,526 |
| **2014-15** | 5,607 |
| **2013-14** | 5,594 |
| **2012-13** | 5,520 |
| **2011-12** | 5,451 |
| **2010-11** | 5,409 |

**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol: Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion (sawl rhifyn blynyddol)

**Nodiadau:**

1. Mae hyn yn cynnwys pob elfen o wariant awdurdodau lleol sy'n ymwneud â darpariaeth ysgolion, h.y. y gyllideb ysgolion (gan gynnwys yr CYU) ynghyd ag elfennau o gyllideb addysg yr awdurdod lleol sy'n ymwneud ag ysgolion: darpariaeth ADY; gwella ysgolion; mynediad at addysg; trafnidiaeth ysgol; rheoli ysgolion yn strategol; a mathau eraill o wariant. Mae'r ffigurau'n cynnwys y gost o addysgu disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r sir.

2. Mae'r ffigurau ar sail 'gros', h.y. maent yn cynnwys cyllid o bob ffynhonnell.

3. Diwygiwyd data ar gyfer 2010-11, 2011-12 a 2013-14 gan Lywodraeth Cymru yn natganiad ystadegol y flwyddyn ganlynol. Y ffigurau yn y tabl hwn yw'r data diwygiedig diweddaraf.

4. Nid yw ffigur 2015-16 a ffigurau blynyddoedd blaenorol yn gwbl gymaradwy oherwydd y newid o wariant Dechrau'n Deg o Addysg i Wasanaethau Cymdeithasol yn 2015-16.

## 3.2. Gwariant dirprwyedig

Mae'r gyfradd ddirprwyo yn cynrychioli cyfran y gwariant gros a gyllidebwyd sy'n cynnwys y cyllidebau dirprwyedig ysgolion, h.y. arian a roddir i ysgolion eu hunain, yn hytrach na'i gadw'n ganolog gan yr awdurdod lleol.

Yn 2018-19, ar gyfartaledd ledled Cymru, roedd **84.2 y cant** o'r gwariant gros a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion wedi'i ddirprwyo i'r ysgolion eu hunain. Nid yw hyn wedi newid o 84.2 y cant yn 2015-16 ac mae'n gynnydd o 75.0 y cant yn 2010-11.

Yn 2012, ymrwymodd llywodraeth leol i darged a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i ddirprwyo 85 y cant o'r holl gyllid ysgolion yn uniongyrchol i ysgolion erbyn 2014-15. Mae Tabl 3 yn dangos y cynnydd yn y cyfraddau dirprwyo dros y blynyddoedd diwethaf.

**Tabl 3: Cyfran gwariant gros Cymru gyfan a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion a ddirprwywyd i ysgolion (y gyfradd ddirprwyo)**

| | Y gyfradd ddirprwyo |
|---|---|
| **2018-19** | 84.2% |
| **2017-18** | 84.2% |
| **2016-17** | 84.3% |
| **2015-16** | 83.8% |
| **2014-15** | 82.9% |
| **2013-14** | 82.3% |
| **2012-13** | 81.0% |
| **2011-12** | 76.2% |
| **2010-11** | 75.0% |

**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol: Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion Saesneg yn unig (sawl rhifyn blynyddol)

**Nodiadau:**

1. Cyfrifir y gyfradd ddirprwyo drwy rannu'r symiau a gaiff eu dirprwyo i ysgolion â›r gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion.

2. Bydd cyfraddau dirprwyo yn amrywio gan ddibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir yn ganolog gan awdurdodau lleol. Mae'r bwletin ystadegol yn nodi'r gyfradd ddirprwyo ar gyfer pob awdurdod lleol.

3. Diwygiwyd data gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer 2010-11, 2011-12 a 2013-14 gan Lywodraeth Cymru yn natganiad ystadegol y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, ni ddiwygiwyd y data ar gyfer y cyfraddau dirprwyo. Y cyfraddau dirprwyo a ddangosir yn y tabl hwn ar gyfer 2010-11, 2011-12 a 2013-14 yw'r rhai a gyhoeddwyd yn natganiad ystadegol y flwyddyn wreiddiol.

Er ei bod wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf fel cyfran o'r cyfanswm gwariant ar gyfer ysgolion, mae swm sylweddol o gyllid ysgolion yn dal i gael ei gadw a'i wario'n ganolog gan awdurdodau lleol; £407 miliwn yn 2018-19 (15.8 y cant o'r £2.566 biliwn a gyllidebwyd). Mae awdurdodau lleol yn penderfynu y dylent ddarparu rhai gwasanaethau, er enghraifft cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a rhywfaint o ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn ganolog eu hunain er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, arbedion maint neu am eu bod yn wasanaethau arbenigol neu'n wasanaethau canolog yn eu hanfod. Rhestrir y rhain yn y tabl yn Atodiad A.

## 3.3. Data yn ôl awdurdod lleol

Caiff y data a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn y datganiad ystadegol blynyddol ac ar StatsCymru eu dadansoddi yn ôl awdurdod lleol. Cyflwynir y data hynny yn Nhabl 4 isod.

## Tabl 4: Gwariant gros a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion a'r gyfradd ddirprwyo

| | 2016-17 | | | 2017-18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gros (£Miliwn)** | **Fesul disgybl (£)** | **Y gyfradd ddirprwyo (%)** | **Gros (£Miliwn)** | **Fesul disgybl (£)** | **Y gyfradd ddirprwyo (%)** |
| **Ynys Môn** | 56.475 | 6,077 | 83.1 | 55.666 | 5,923 | 83.1 |
| **Gwynedd** | 97.898 | 5,947 | 83.4 | 99.154 | 6,015 | 83.0 |
| **Conwy** | 92.167 | 5,960 | 84.8 | 90.928 | 5,903 | 84.3 |
| **Sir Ddinbych** | 86.799 | 5,713 | 86.0 | 90.209 | 5,948 | 85.1 |
| **Sir y Fflint** | 119.971 | 5,252 | 86.0 | 120.889 | 5,326 | 86.3 |
| **Wrecsam** | 102.769 | 5,460 | 84.8 | 102.617 | 5,444 | 86.7 |
| **Powys** | 104.989 | 5,933 | 78.0 | 105.239 | 6,153 | 76.8 |
| **Ceredigion** | 59.580 | 6,349 | 78.0 | 59.380 | 6,382 | 78.7 |
| **Sir Benfro** | 99.012 | 5,760 | 85.8 | 96.423 | 5,667 | 85.4 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 151.837 | 5,637 | 83.4 | 152.016 | 5,650 | 82.9 |
| **Abertawe** | 176.409 | 5,126 | 84.8 | 184.200 | 5,346 | 83.7 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 111.906 | 5,674 | 81.0 | 113.722 | 5,756 | 80.2 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 120.281 | 5,240 | 85.5 | 121.842 | 5,332 | 84.7 |
| **Bro Morgannwg** | 109.105 | 5,051 | 87.2 | 109.913 | 5,022 | 88.2 |
| **Caerdydd** | 288.422 | 5,604 | 88.2 | 295.025 | 5,685 | 89.3 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 215.010 | 5,585 | 82.8 | 217.515 | 5,716 | 82.5 |
| **Merthyr Tudful** | 48.879 | 5,723 | 86.1 | 50.322 | 5,811 | 87.0 |
| **Caerffili** | 152.186 | 5,576 | 82.2 | 152.714 | 5,608 | 82.1 |
| **Blaenau Gwent** | 55.283 | 6,327 | 85.3 | 55.034 | 6,317 | 84.8 |
| **Torfaen** | 79.492 | 5,537 | 83.4 | 79.862 | 5,594 | 83.5 |
| **Sir Fynwy** | 63.410 | 5,602 | 82.0 | 62.964 | 5,526 | 81.9 |
| **Casnewydd** | 126.886 | 5,282 | 85.4 | 127.456 | 5,234 | 84.5 |
| **Cymru** | 2,518.768 | 5,570 | 84.3 | 2,543.089 | 5,628 | 84.2 |

**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol: Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion (Saesneg yn unig) (sawl rhifyn blynyddol)

| | 2018-19 | | |
|---|---|---|---|
| | **Gros (£Miliwn)** | **Fesul disgybl (£)** | **Y gyfradd ddirprwyo (%)** |
| **Ynys Môn** | 54.581 | 5,801 | 83.9 |
| **Gwynedd** | 100.390 | 6,081 | 82.5 |
| **Conwy** | 91.399 | 5,956 | 84.1 |
| **Sir Ddinbych** | 91.239 | 6,041 | 84.5 |
| **Sir y Fflint** | 121.732 | 5,401 | 86.5 |
| **Wrecsam** | 103.424 | 5,499 | 87.1 |
| **Powys** | 107.162 | 6,456 | 75.1 |
| **Ceredigion** | 58.773 | 6,249 | 79.1 |
| **Sir Benfro** | 97.453 | 5,768 | 85.6 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 150.638 | 5,573 | 83.1 |
| **Abertawe** | 188.729 | 5,506 | 82.9 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 114.887 | 5,772 | 80.7 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 121.624 | 5,306 | 85.2 |
| **Bro Morgannwg** | 111.643 | 5,107 | 87.9 |
| **Caerdydd** | 300.156 | 5,724 | 89.9 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 219.018 | 5,731 | 82.1 |
| **Merthyr Tudful** | 50.934 | 5,830 | 86.2 |
| **Caerffili** | 152.384 | 5,660 | 81.9 |
| **Blaenau Gwent** | 55.522 | 6,355 | 85.2 |
| **Torfaen** | 81.404 | 5,687 | 82.7 |
| **Sir Fynwy** | 63.512 | 5,552 | 82.1 |
| **Casnewydd** | 129.845 | 5,232 | 84.9 |
| **Cymru** | 2,566.450 | 5,675 | 84.2 |

**Nodiadau:**

1. Mae’r ffigurau gros yn cynnwys pob elfen o wariant awdurdodau lleol sy’n ymwneud â darpariaeth ysgolion, h.y. y gyllideb ysgolion (gan gynnwys yr CYU) ynghyd ag elfennau o gyllideb addysg yr awdurdod lleol sy’n ymwneud ag ysgolion: darpariaeth ADY; gwella ysgolion; mynediad at addysg; trafnidiaeth ysgol; rheoli ysgolion yn strategol; a mathau eraill o wariant. Mae’r ffigurau’n cynnwys y gost o addysgu disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig sy’n cael eu haddysgu y tu allan i’r sir. Maent hefyd ar sail ‘gros’, h.y. maent yn cynnwys cyllid o bob ffynhonnell.

2. Cyfrifir y gyfradd ddirprwyo drwy rannu’r symiau a gaiff eu dirprwyo i ysgolion â›r gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion. Mae cyfraddau dirprwyo yn amrywio gan ddibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir yn ganolog gan awdurdodau lleol.

# 4. Cronfeydd wrth gefn ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **data blynyddol ar gronfeydd wrth gefn ysgolion (Saesneg yn unig)** bob mis Hydref. Mae'r data diweddaraf, a gyhoeddwyd ar 19 Hydref 2017, ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 ac yn dangos y sefyllfa ar 31 Mawrth 2017.

Y cronfeydd wrth gefn a oedd gan ysgolion oedd **£46 miliwn ar 31 Mawrth 2017**, sy'n cyfateb i **£102 y disgybl**. Roedd y swm hwn yn **ostyngiad o 28 y cant o'i gymharu â swm 2015-16**.

Mae Tabl 1 o **ddatganiad ystadegol diweddaraf (Saesneg yn unig)** Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r £46 miliwn a'r £102 fesul disgybl yn ôl awdurdod lleol. Cyngor Sir Ynys Môn oedd â›r cronfeydd wrth gefn mwyaf, sef £223 fesul disgybl, ac roedd gan Bowys y cronfeydd wrth gefn lleiaf, sef £2 y disgybl. Sir Ddinbych oedd yr unig awdurdod yr oedd ei ysgolion yn cynnal diffyg cyffredinol, sef £70 fesul disgybl.

## 4.1. Nifer yr ysgolion sydd â chronfeydd wrth gefn a diffygion

O'r 1,588 o ysgolion yng Nghymru, roedd gan 1,304 (82 y cant) o ysgolion gronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2017, ac roedd gan 284 (18 y cant) ddiffygion (h.y. yn cario diffygion drosodd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol).

Mae Tabl 3 o ddatganiad ystadegol Llywodraeth Cymru yn rhoi dadansoddiad o nifer yr ysgolion yn ôl y cronfeydd wrth gefn a oedd ganddynt ar 31 Mawrth 2017. Ceir crynodeb isod:

O 1,319 o **ysgolion cynradd**:

- Roedd gan 669 (51 y cant) gronfeydd wrth gefn o lai na 5 y cant o'u cyllideb flynyddol;
- Roedd gan 316 (24 y cant) gronfeydd wrth gefn rhwng 5 a 10 y cant;
- Roedd gan 139 (11 y cant) gronfeydd wrth gefn o dros 10 y cant;
- Roedd gan **195** (15 y cant) **ddiffygion**.

O 207 o **ysgolion uwchradd**:

- Roedd gan 114 (55 y cant) o ysgolion uwchradd gronfeydd wrth gefn o lai na 5 y cant o'u cyllideb flynyddol;

- Roedd gan 16 (8 y cant) gronfeydd wrth gefn rhwng 5 a 10 y cant;
- Roedd gan 4 (2 y cant) gronfeydd wrth gefn o dros 10 y cant;
- Roedd gan **73** (35 y cant) **ddiffygion**.

Mae Tabl 6 o ddatganiad ystadegol Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r wybodaeth hon yn ôl awdurdod lleol. Mae data yn ôl ysgol ar gael ar-lein yn **StatsCymru**.

## 4.2. Pwerau cyfarwyddo neu adennill awdurdodau lleol

O dan ***Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010***, lle mae cronfeydd wrth gefn ysgol **yn fwy na throthwy penodol**, caiff awdurdod lleol gyfarwyddo'r ysgol i wario'r swm dros ben. Os nad yw'r ysgol yn gwneud hyn, caiff yr awdurdod lleol adennill y swm hwnnw. Y trothwyon yw £50,000 ar gyfer ysgol gynradd a £100,000 ar gyfer ysgol uwchradd.

Ar 31 Mawrth 2016, roedd gan 412 o ysgolion cynradd a 77 o ysgolion uwchradd a chanol gronfeydd wrth gefn yn fwy na'r trothwyon statudol.[9] Flwyddyn yn ddiweddarach, ar 31 Mawrth 2017, y niferoedd hyn oedd 330 o ysgolion cynradd, 60 o ysgolion uwchradd a 5 ysgol ganol.[10]

## 4.3. Gostyngiadau mewn cronfeydd wrth gefn ers 2016-17 a'r neges gan Ysgrifennydd y Cabinet

Roedd cronfeydd wrth gefn ysgolion yn rhan o waith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyllideb ddrafft 2017-18 Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016. Dywedodd Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, wrth y pwyllgor ei bod wedi cael **tipyn o sioc o weld bod gan rai** ysgolion unigol lefelau mawr iawn o gronfeydd wrth gefn.

Dangosodd **data a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016** mai cyfanswm net cronfeydd wrth gefn ysgolion yng Nghymru ar 31 Mawrth 2016 oedd £64 miliwn, neu £142 fesul disgybl.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr hyn sy'n lefel briodol o gronfeydd wrth gefn yn amrywio o ysgol i ysgol, a bod rhaid i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol weithio gydag ysgolion ar yr hyn sy'n addas. Fodd bynnag, dywedodd

---

9 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **30 Tachwedd 2016**

10 Dadansoddiad y Gwasanaeth Ymchwil o **Wariant Alldro Ysgol Ddirprwyedig, yn ôl ysgol (£ mil), StatsCymru** [cyrchwyd Gorffennaf 2018]

Kirsty Williams AC y canlynol wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hefyd ar 10 Tachwedd 2016:

> My message is, if people [schools] are hanging on to that money for a rainy day, **well it's raining** and we need that money being used to its best effect-that is, delivering for school pupils. (paragraff 31) [fy mhwyslais i]

Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ar 19 Hydref 2017 yn dangos **gostyngiad o 28 y cant** yng nghyfanswm net cronfeydd wrth gefn ysgolion o £64 miliwn (£142 fesul disgybl) ar 31 Mawrth 2016 i £46 miliwn (£102 fesul disgybl) ar 31 Mawrth 2017. Gostyngodd nifer yr ysgolion â chronfeydd wrth gefn o fwy na 10 y cant o'u gwariant dirprwyedig blynyddol o 206 i 152, sef gostyngiad yn gynyddrannol o 13 y cant o ysgolion i 10 y cant o ysgolion.

Fel y trafodir hefyd yn adran 4.2, roedd gostyngiad hefyd yn nifer yr ysgolion a oedd â chronfeydd wrth gefn uwchlaw'r trothwyon statudol lle y caiff awdurdodau lleol ymyrryd. Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan 330 o ysgolion cynradd a 65 o ysgolion uwchradd a chanol gronfeydd wrth gefn dros y trothwyon, o'u cymharu â 412 a 77 yn ôl eu trefn ar 31 Mawrth 2016.

Ym mis Hydref 2017, nododd y BBC fod Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn dweud y dylai'r gostyngiad mewn cronfeydd wrth gefn ysgolion fod yn rhybudd ac roedd yn awgrymu bod ysgolion yn gorfod defnyddio cronfeydd wrth gefn oherwydd diffyg sylfaenol mewn cyllid ysgolion.

Wedi hynny, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 16 Tachwedd 2017:

> There may be, in some cases, legitimate reasons why schools would hold on to reserves. They may be perhaps saving up for a particular project or they've got something very much in mind about why those resources will be spent. But, as I said, I continue to challenge local government to ensure that schools are making good use of the funding allocated, and whilst the overall level of reserves has now decreased, there are some schools that are making better use than others. So, some schools continue to maintain higher balances of more than 10 per cent of their total delegated budget. **One has to question why that is. There may be a legitimate reason, but local authorities have a duty to be questioning and to be satisfying themselves.** We continue to keep pressure on this particular area, but we have seen movement over the last year. (paragraff 114) [fy mhwyslais i]

# 5. Y cyd-destun polisi

Bu cynyddu'r gwariant ar addysg yn flaenoriaeth i Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog. Yr oedd yn un o'i addewidion allweddol pan oedd yn ymgyrchu dros arwain Llafur Cymru a phan ddaeth yn Brif Weinidog Cymru ym mis Rhagfyr 2009.[11]

## 5.1. Amddiffyn cyllidebau ysgolion yn y Pedwerydd Cynulliad

Yn y pedwerydd Cynulliad (2011-2016), roedd gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu i amddiffyn cyllidebau ysgolion. Nod y rhaglen oedd cynyddu gwariant ar gyfer ysgolion Cymru o leiaf **un pwynt canran yn uwch na'r newid i gyfanswm yr arian a ddaw o San Steffan** ar gyfer swyddogaethau datganoledig (Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru ac ati), sef 'bloc Cymru'.

Yn dilyn gwaith craffu ar y mater a galwadau am fwy o dryloywder, esboniodd Llywodraeth Cymru ei dull gweithredu ar gyfer y polisi '1 y cant o ran diogelu'r gyllideb ysgolion' yn **naratif Cyllideb Ddrafft 2015-16** (Atodiad E). Yna, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf yn y **papur a gyflwynwyd gan Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd,** i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch craffu ar gyllideb ddrafft 2016-2017 ym mis Ionawr 2016 (paragraffau 95-101).

Nododd Llywodraeth Cymru y newidiadau i floc Cymru a'r gyllideb ysgolion rhwng 2010-11 a 2015-16, ynghyd â›r **twf blynyddol cyfartalog** yn ystod y cyfnod. Dangosodd hyn i gyllideb Llywodraeth Cymru dyfu **0.02 y cant** ar gyfartaledd bob blwyddyn rhwng 2010-11 a 2015-16. Nododd hefyd fod y cyllid i gyllidebau sy'n cefnogi dysgwyr mewn lleoliadau ysgol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wedi cynyddu o **1.02 y cant** ar gyfartaledd bob blwyddyn.[12]

11 BBC, **Candidate's pledge on education**, 2 Tachwedd 2009 [cyrchwyd ym mis Gorffennaf 2018]

12 Nododd Llywodraeth Cymru ganlyniad ei pholisi o ran twf blynyddol cyfartalog yn ei chyl lidebau ar gyfer y cyfnod rhwng 2010-11 a 2015-16, yn hytrach na newidiadau o un flwyddyn unigol i'r nesaf.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, **cafodd ysgolion £106 miliwn ychwanegol rhwng 2010-11 a 2015-16** o ganlyniad i hyn. Cafodd £72 miliwn o'r arian hwn ei sianelu drwy'r setliad llywodraeth leol a daeth £34 miliwn ohono o linellau'r gyllideb addysg.[13]

Yn y wybodaeth a roddwyd ganddo i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2016, dywedodd y Gweinidog ar y pryd fod cyllid i ysgolion yn cynyddu 1.85 y cant yn 2016-17, o'i gymharu â 2015-16. Mae hynny un pwynt canran yn uwch na'r newid i floc Cymru, sef 0.85 y cant yn 2016-17. Dywedodd y Gweinidog ar y pryd fod ysgolion wedi cael **£40 miliwn ychwanegol yn 2016-17 o ganlyniad i hyn**. Talwyd £35 miliwn o'r arian hwn drwy'r setliad llywodraeth leol a daeth £5 miliwn ohono o linellau'r gyllideb addysg.

## 5.2. Arian ychwanegol ar gyfer codi safonau ysgolion yn y Pumed Cynulliad – drwy gyllideb addysg ganolog Llywodraeth Cymru

Ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, roedd cyllid ar gyfer ysgolion yn flaenoriaeth eto i Lywodraeth Cymru yn **Rhaglen Lywodraethu 2016-2021, Symud Cymru Ymlaen**, gan ymrwymo i '[f]uddsoddi **£100 miliwn ychwanegol** i wella safonau ysgolion dros y tymor [Cynulliad] nesaf'.

Penderfynodd Llywodraeth Cymru sianelu'r £100 miliwn ychwanegol hwn drwy raglenni a pholisïau penodol yn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Addysg, yn hytrach na thrwy gyllid ar gyfer cyllidebau craidd llywodraeth leol ac ysgolion (fel oedd ei dull o ddiogelu cyllidebau ysgolion yn y Pedwerydd Cynulliad).

Dyrannodd Llywodraeth Cymru £20 miliwn i Linell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Codi Safonau Ysgolion yn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Addysg yn 2017-18, gan ddyrannu £25 miliwn arall yn 2018-19 a swm dangosol o £25 miliwn ar gyfer 2019-20.[14]

Esboniodd Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, y rhesymeg dros wneud hynny mewn **llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, dyddiedig 30 Tachwedd 2016:**

13 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd ar gyfer ysgolion yn y setliad llywodraeth leol, a ariennir gan y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Llywodraeth Leol yn ei gyllideb flynyddol. Mae'r Prif Grŵp Gwariant yn ariannu diwygiadau a mentrau addysg penodol, yn ogystal ag addysg bellach ac uwch.

14 Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, **Papur i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyllideb ddrafft 2018-19**, Tachwedd 2017, Atodiad B

> Ni ddylid ystyried bod y £100 miliwn a ddyrannwyd dros dymor y Cynulliad hwn i godi safonau ysgolion yn disodli'r diogelwch 1%. Nod y cyllid hwn, yn debyg i'n holl ddiwygiadau, yw codi safonau a helpu i leihau'r blwch cyrhaeddiad. Caiff ei dargedu felly at y meysydd hynny. Rwy'n awyddus i **dargedu'r cyllid hwn at y meysydd y credwn y byddant yn cynhyrchu'r elw mwyaf** ar ein buddsoddiad; sef llesiant, y cwricwlwm, asesu, addysgeg, arweinyddiaeth a'r system hunanwella.. [fy mhwyslais i]

**Dywedodd Llywodraeth Cymru, wrth graffu ar gyllideb ddrafft 2018-19,** fod y £100 miliwn 'wedi'i alinio â'[i] blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a amlinellir yn [ei chynllun gweithredu addysg] ***Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl'***. Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd wedi dweud y caiff y £45 miliwn a ddyrennir hyd at fis Mawrth 2019 ei wario fel a ganlyn yn fras:

- £23.25 miliwn ar ddysgu proffesiynol athrawon
- £9.5 miliwn ar gydweithio a hunanwella
- £6.25 miliwn ar arweinyddiaeth
- £5 miliwn ar y cwricwlwm ac asesu
- £1 filiwn ar lesiant disgyblion.[15]

Yn ei **adroddiad ar gyllideb Llywodraeth Cymru 2018-19**, mynegodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg bryder y gallai'r gronfa o £100 miliwn ddod 'yn fanteisiol ar gyfer mentrau polisi nad oes ganddynt gartref cyllideb naturiol fel arall neu ddod yn ffynhonnell ariannu ar gyfer llinellau cyllideb sydd heb ddigon o adnoddau'. Galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i nodi'n glir sut y mae'n targedu'r £100 miliwn yn strategol â thargedau clir er mwyn sicrhau na fydd yn llinell gyllideb 'amrywiol' yn unig.

Hefyd, argymhellodd y Pwyllgor yn ei ***adroddiad ymchwiliad cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol*** (Mehefin 2018), er mwyn dangos y £100 miliwn ychwanegol, y dylai Llywodraeth Cymru 'ddarparu, ar sail unigol a chyfunol, restr o'r llinellau gwariant yn y gyllideb (BELs) o fewn y MEG Addysg sy'n cyllido codi safonau ysgolion yn bennaf, ar gyfer 2016-17, 2017-18 a 2018-19, yn ogystal ag ymrwymo i wneud hynny ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn'.

15 Gweler **trawsgrifiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o 14 Mehefin 2017 (paragraff 190)** am fanylion o ran sut y dyrannwyd yr £20 miliwn yn 2017-18 a **llythyr Ysgrifennydd y Cabinet ar 17 Tachwedd 2017** am fanylion sut y dyrennir y £25 miliwn yn 2018-19.

## 5.3. Diogelu cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion yn setliad llywodraeth leol 2018-19

Dywedodd Llywodraeth Cymru, wrth graffu ar gyllideb ddrafft 2018-19, ei bod yn amddiffyn cyllidebau ysgolion.[16] Gwnaeth hyn drwy ailflaenoriaethu cyllid llywodraeth leol. Mae Llywodraeth Cymru yn dod â nifer o grantiau penodol i ben ac yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifiad cychwynnol swm cyllid ysgolion yn setliad llywodraeth leol 2018-19.

**Esboniodd llythyr gan Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus,** y canlynol i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Tachwedd 2017:

- Byddai **cyfrifiad cychwynnol** Llywodraeth Cymru o'r Cyllid Allanol Cyfun (CAC), a nodwyd yn dybiannol ar gyfer gwasanaethau ysgol yn setliad llywodraeth leol 2018-19, wedi arwain at **ostyngiad o £60.3 miliwn** o lefel 2017-18.
- Defnyddiodd Llywodraeth Cymru £61.8 miliwn o **ailflaenoriaethu cyllid llywodraeth leol er mwyn osgoi gostyngiad o'r fath** a galluogi cynnydd o £1.5 miliwn (0.1 y cant) (o £1.554 biliwn i £1.556 biliwn.)

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn llythyr dyddiedig **17 Ebrill 2018** fod y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Addysg yn cyfrannu £33 miliwn i amddiffyn cyllidebau ysgolion yn y setliad llywodraeth leol dros y ddwy flwyddyn 2018-19 a 2019-20. Fodd bynnag, mewn dau o'r achosion lle roedd Llywodraeth Cymru yn ailflaenoriaethu cyllid llywodraeth leol (gan ddileu elfen Lleiafrifoedd Ethnig/Sipsiwn a Theithwyr o'r Grant Gwella Addysg a dod â›r Grant Gwisg Ysgol i ben), mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod adennill arian, gan arwain at **ragor o gwestiynau gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** ynghylch rhinweddau'r dull cychwynnol yng nghyllideb 2018-19.

16 Llywodraeth Cymru, **Cyllideb Ddrafft 2018-19 - Cynigion amlinellol - Cyllideb newydd i Gymru**, 3 Hydref 2017, paragraffau 4.49-4.50 a **Datganiad llafar gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**, 3 Hydref 2017

## 5.4. Lefelau cyllid o'u cymharu â Lloegr

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data cyllido ysgolion cymharol Cymru a Lloegr ers 2011. **Esboniodd erthygl gan Brif Ystadegydd Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2015** yr anawsterau wrth gyhoeddi data cyson, cymaradwy a chadarn o ganlyniad i gyflwyno Academïau yn Lloegr a newidiadau yno i'r ffordd y caiff ysgolion eu hariannu ac y caiff data eu casglu.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, pan oedd data cymaradwy ar gael (2009-10), **nododd yr ystadegau** y gwariwyd £604 yn fwy fesul disgybl yn Lloegr (£6,200) nag yng Nghymru (£5,595). O eithrio Llundain, roedd yr ystadegau'n awgrymu mai'r gwahaniaeth oedd £412 fesul disgybl. Nododd data amgen, **Dadansoddiadau Ystadegol Gwariant Cyhoeddus Trysorlys EM (Saesneg yn unig)** y caiff mwy ei wario yng Nghymru na Lloegr fesul pen o'r boblogaeth (yn hytrach na fesul disgybl).

Mae **gwaith gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (Saesneg yn unig)** (SAC), y cyhoeddwyd manylion amdano ym mis Gorffennaf 2018, yn cyflwyno darlun braidd yn wahanol. Mae dadansoddiad SAC, sy'n defnyddio methodoleg wedi'i diweddaru ac yn cynnwys cyfanswm gwariant ar gyfer ysgolion a chyfrif pennau o 3 i 18 oed, gan gynnwys blynyddoedd cynnar a chweched dosbarthiadau, yn awgrymu'r canlynol:

- Roedd y bwlch cyllido o £600 fesul disgybl rhwng Cymru a Lloegr yn 2009, mewn gwirionedd, yn nes at £300.
- Mae gwariant fesul disgybl wedi **gostwng ers 2009-10 mewn termau real yng Nghymru a Lloegr**.
- Bu **mwy o ostyngiad mewn cyllid fesul disgybl yn Lloegr** (8 y cant) nag yng Nghymru (5 y cant) ers 2009-10.
- **Mae'r bwlch cyllido fesul disgybl** (y swm y mae Cymru yn ei wario'n llai na Lloegr) erbyn hyn yw tua £100 fesul disgybl ac, o eithrio Llundain, **mae'n debygol ei fod yn nes at sero**.[17]

---

17 Luke Sibieta, Cymrawd Ymchwil, Sefydliad Astudiaethau Cyllid, *Cymharu gwariant ysgolion fesul disgybl yng Nghymru a Lloegr (Saesneg yn unig)*, Cyflwyniad i gynhadledd Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru 2025, 12 Gorffennaf 2018

## 5.5. Ymchwiliad Pwyllgor y Cynulliad sydd ar ddod

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg **wedi nodi ei fwriad** i gynnal ymchwiliad i gyllid ysgolion. Rhagwelir y bydd ymchwiliad o'r fath yn canolbwyntio ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cyllido ysgolion a'r ffordd y caiff cyllidebau ysgol eu pennu a'u dyrannu.

Nododd y Pwyllgor y 'cyfeiriwyd droeon at y pwysau sydd ar gyllidebau ysgolion yn ystod' ei ymchwiliad ***Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol*** a bod y mater hefyd wedi'i godi mewn gwaith craffu arall, gan gynnwys craffu ar gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru.

Dywedodd y Pwyllgor yn ei adroddiad ymchwiliad ei bod hi'n **'bryd ystyried a chraffu'n fanylach ar gyllid ysgolion'** ac mae'n bwriadu cynnal archwiliad manylach o gyllid ysgolion a'r effaith y mae'n ei chael ar bolisïau ac amcanion addysg Llywodraeth Cymru.

# 6. Atodiad A: Dadansoddiad o wariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion

**Tabl 5: Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion yn 2018-19**

| | | | **£ mil** |
|---|---|---|---|
| **Gwariant a gyllidebwyd ar gyfer 2018-19** | | **Dadansoddiad** | |
| Cyllideb Addysg Awdurdod Lleol (a gedwir yn ganolog gan yr awdurdod lleol) | 248,082 | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 20,677 |
| | | Gwella ysgolion | 22,437 |
| | | Mynediad at addysg | 36,881 |
| | | Cludiant rhwng yr ysgol a'r cartref | 112,710 |
| | | Rheolaeth strategol - ysgolion | 54,498 |
| | | Cyllideb Addysg Awdurdod Lleol arall - ysgolion | 879 |
| Cyllideb Ysgolion (a gedwir yn ganolog gan yr awdurdod lleol) | 158,439 | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 71,430 |
| | | Digollediad rhwng awdurdodau | 10,522 |
| | | Staff | 3,157 |
| | | Gwariant arall ysgolion | 68,258 |
| | | Gwariant cyfalaf a godwyd o'r cyfrif refeniw | 5,072 |
| Cyllidebau ysgolion dirprw-yedig | 2,159,929 | Cyllideb Ysgolion Unigol (CYU) | 1,940,630 |
| | | Arian nad yw'n CYU a ddirprwywyd i ysgolion | 219,294 |
| **Cyfanswm y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion** | **2,566,450** | | |

Ffynhonnell: Tynnwyd o Lywodraeth Cymru, StatsCymru, **Gwariant refeniw addysg a gyllidebwyd yn ôl awdurdod a gwasanaeth a Chyllidebau Ysgol Dirprwyedig yn ôl sector** [cyrchwyd Awst 2018]